# Cynnal Safonau Proffesiynol 2018/19 – Monitro Amrywiaeth, Adroddiad Ategol

# Cynnwys

Cyflwyniad a chefndir i'r adroddiad hwn ... 4
- Canfyddiadau o adroddiadau monitro amrywiaeth blaenorol ... 4

Cwmpas ein dadansoddiad ... 6

Canfyddiadau allweddol 2018/19 a gwaith ac ymchwil pellach ... 8
- Rhyw ... 8
- Ethnigrwydd ... 9
- Oedran ... 10
- Anabledd ... 12
- Gwaith ac ymchwil pellach ... 13

Proffil amrywiaeth: Camau 1 a 2 ... 14
- Niferoedd ar y camau hyn ... 14
- Cyfraddau datgelu ... 14
- Rhyw ... 14
- Ethnigrwydd ... 15
- Oedran ... 17
- Anabledd ... 18

Proffil amrywiaeth: Llwybr A – Camau 1, 2 a 3 ... 20
- Cyfyngiadau wrth adrodd data ... 20
- Ein canfyddiadau ... 21
- Rhyw ... 21
- Canlyniadau - rhyw ... 22
- Ethnigrwydd ... 22
- Canlyniadau - ethnigrwydd ... 23
- Oedran ... 24
- Canlyniadau - oedran ... 24

Proffil amrywiaeth: Llwybr B – Camau 1, 2 a 4 ... 26
- Cyfyngiadau wrth adrodd data ... 26
- Nodyn ar waharddiadau ... 27
- Ein canfyddiadau ... 27

Rhyw ... 27
Canlyniadau'r SDT - rhyw ... 28
Ethnigrwydd ... 28
Oedran ... 29
Proffil amrywiaeth: Canlyniadau y cytunwyd arnynt ... 32
Cyfyngiadau wrth adrodd data ... 32
Rhyw ... 32
Ethnigrwydd ... 33
Oedran ... 34
Atodiad: Proffil amrywiaeth y bobl rydym yn eu rheoleiddio ... 35
Cyfraddau datgelu ... 35
Rhyw ... 36
Ethnigrwydd ... 36
Oedran ... 37
Anabledd ... 37

# Cyflwyniad a chefndir i'r adroddiad hwn

Rydym yn cymryd ein hymrwymiad i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) o ddifrif. Fel rhan o hyn, rydym wedi gwneud cynnydd da yn ystod y blynyddoedd diwethaf i hyrwyddo EDI yn y proffesiwn cyfreithiol, datblygu a chefnogi ein gweithlu ein hunain a sefydlu ystyriaethau EDI yn yr holl waith a wnawn.

Rhan hanfodol o ymgorffori EDI yn y gwaith a wnawn yw adolygu ein systemau a'n prosesau i sicrhau nad ydynt yn cynnwys rhagfarn na gwahaniaethu. Rydym yn gwneud hyn nid yn unig gan fod gennym ddyletswydd gyhoeddus i wneud hynny, fel y nodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol, ond oherwydd mai dyna'r peth iawn i'w wneud.

Eleni, mae hyn a'n hadroddiad Cynnal Safonau Proffesiynol yn edrych ar nodweddion amrywiaeth y bobl sy'n ymwneud â'n prosesau gorfodi. Er ei fod yn ymarfer blynyddol yn y gorffennol, gwnaethom oedi gyda'r adroddiad hwn yn 2015 oherwydd y ffocws cynyddol ar rôl cwmnïau'r gyfraith o ran cynnal safonau proffesiynol uchel. Roedd hyn yn golygu ein bod yn cofnodi cyfran gynyddol o'n gwaith gorfodi yn erbyn cwmnïau, yn hytrach nag unigolion. Roedd hyn, a'r gostyngiad yn nifer y cyfreithwyr newydd sy'n darparu eu data amrywiaeth i ni drwy ein porth ar-lein (ar ôl i ni symud i broses dderbyn ar-lein), yn golygu bod monitro amrywiaeth unigolion yn ein gwaith gorfodi yn her.

Rydym bellach wedi ailddechrau'r gwaith monitro hwn ac, i wneud hynny, wedi cynnal adolygiad â llaw sy'n defnyddio llawer o adnoddau o'r adroddiadau a gawsom yn 2018/19 i nodi gwybodaeth am yr unigolion dan sylw. Bydd y systemau a'r prosesau newydd rydym yn eu rhoi ar waith yn ein galluogi i echdynnu a dadansoddi data am ein penderfyniadau gorfodi yn well yn y dyfodol.

### Canfyddiadau o adroddiadau monitro amrywiaeth blaenorol

Rydym wedi bod yn ymwybodol o batrymau sy'n dangos gormod o gynrychiolaeth o rai grwpiau yn ein prosesau gorfodi ers rhai blynyddoedd, yn enwedig o ran dynion a phobl o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (BAME). Mae'r data o 2018/19 yn dangos darlun weddol debyg, o ran y pryderon a gawsom a'r ymchwiliadau y gwnaethom fwrw ymlaen â nhw.

Rydym wedi comisiynu sawl adolygiad allanol i edrych ar hyn, gan adeiladu ar waith a wnaeth Cymdeithas y Cyfreithwyr yn 2006 cyn sefydlu'r SRA. Y diweddaraf oedd Adolygiad Achos Cymharol Annibynnol (ICCR) yr Athro John, a gyhoeddwyd yn 2014. Cyn hynny, fe wnaethom gomisiynu Pearn Kandola i adolygu ein data penderfyniadau rheoleiddio yn 2010, a argymhellwyd gan yr Arglwydd Herman Ouseley yn ei adroddiad am yr un materion, a gyhoeddwyd yn 2008. Ni chanfu'r un o'r adolygiadau unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu, ond tynnodd pob adolygiad sylw at orgynrychioli ymysg grwpiau penodol a darparodd argymhellion i ni ac eraill, sydd wedi helpu i lywio ein dull gorfodi.

Wrth ymateb i ormod o gynrychiolaeth o gyfreithwyr BAME, cawsom fudd o sylwadau'r Athro John ar rai o'r ffactorau allanol sy'n effeithio ar broffil y cyfreithwyr BAME a gyfeiriwyd atom (megis eu bod yn fwy tebygol o weithio mewn cwmnïau bach, a sefydlu arferion unigol ar ôl dim ond ychydig flynyddoedd o ennill eu cymwysterau, er enghraifft).

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, gan ein bod wedi llunio ein rhaglen o ddiwygio rheoleiddiol. Ar ben hynny, rydym wedi gwneud cynnydd ar amrywiaeth o gamau gweithredu arfaethedig i weithredu'r ymrwymiadau a wnaethom yn dilyn yr ICCR, gan gynnwys adolygiad o'n meini prawf gwneud penderfyniadau a datblygu prosesau gwell yn ein gwaith ymchwilio a gorfodi. Rydym wedi cyhoeddi adolygiad o'r gwaith rydym wedi'i wneud ers yr ICCR.

Rydym yn nodi'r gwaith y byddwn yn ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd o'n dadansoddiad diweddaraf. Gan nad yw'r materion yn unigryw i ni na'r sector cyfreithiol, un o'r camau gweithredu yw comisiynu ymchwil annibynnol sy'n edrych ar rai o'r materion ehangach sy'n dylanwadu ar orgynrychioli ymysg unigolion BAME yn y pryderon a adroddwyd i ni.

Er mai ychydig iawn o reoleiddwyr sydd wedi cyhoeddi proffil yr amrywiaeth o bobl yn eu prosesau disgyblu, mae gwybodaeth ar gael gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)[1], y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)[2], a Bwrdd Safonau'r Bar (BSB)[3]. Mae rhai, fel y GMC[4], wedi mynd ymlaen i gynnal dadansoddiad ac ymchwil i'r adroddiadau maent yn eu cael sy'n cynnwys gormod o weithwyr proffesiynol BAME. Mae'n amlwg o'r ymchwil hon bod y materion yn gymhleth ac yn cynnwys sawl elfen.

Byddwn yn ystyried profiad rheoleiddwyr eraill yn y sector cyfreithiol, a thu hwnt, i ddeall yr hyn sy'n digwydd ac i edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'r patrymau eang a pharhaus hyn.

---

[1] GMC, Dadansoddiad o achosion sy'n arwain at wahardd neu ddileu meddygon oddi ar y gofrestr feddygol, 2014
[2] The Pharmaceutical Journal, Cyfran 'bryderus' o fferyllwyr lleiafrifoedd ethnig wedi'u gwahardd neu eu dileu oddi ar gofrestr y GPhC, 2019
[3] BSB, Cwynion yn y Bar: Dadansoddiad o ethnigrwydd a rhyw 2012-2014, Ionawr 2016
[4] GMC, Teg cyfeirio, 2019

# Cwmpas ein dadansoddiad

Fe wnaethom edrych ar gynrychiolaeth rhyw, ethnigrwydd, oedran ac, mewn rhai meysydd lle'r oedd y niferoedd yn ddigonol, anabledd unigolion ar y camau canlynol o'n proses orfodi ar gyfer y flwyddyn 2018/19:

- cam 1: unigolion a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni
- cam 2: unigolion a enwyd ar bryderon y gwnaethom eu datblygu ar gyfer ymchwiliad
- cam 3: unigolion a enwyd ar achosion â sancsiwn mewnol a'r mathau o sancsiynau a osodwyd gennym (llwybr A)
- cam 4: yr achosion a ddaeth i ben yn yr SDT drwy wrandawiad neu ganlyniad y cytunwyd arno, a'r mathau o sancsiynau a osododd yr SDT (llwybr B).

Mae'r unigolion a gyfrifwyd yng ngham 2 (unigolion a enwyd ar bryderon a ddatblygwyd ar gyfer ymchwiliad yn 2018/19) yn is-set o gam 1 (yr unigolion a enwyd ar y pryderon a adroddwyd i ni yn 2018/19). Yng nghamau 3 a 4, rydym yn cyfrif yr unigolion a enwyd ar achosion a gafodd sancsiwn mewnol neu a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT yn 2018/19. Er y gall fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr unigolion sy'n ymwneud â chamau 1 a 2 a'r rhai sy'n ymwneud â cham 3 yn yr adroddiad hwn ar gyfer 2018/19, mae'n annhebygol o fod yn sylweddol. Y rheswm am hyn yw nad yw achosion bob amser yn cael eu derbyn a'u cwblhau yn yr un flwyddyn. Yn yr un modd, mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw orgyffwrdd rhwng yr unigolion sy'n gysylltiedig â chamau 1 a 2 a'r rhai sy'n ymwneud â cham 4. Y rheswm am hyn yw ei bod yn cymryd mwy na blwyddyn i ymchwilio, cyfeirio a chwblhau mater yn yr SDT.

Gan ddechrau gyda dadansoddiad o'r boblogaeth wrth ei gwaith, rydym wedi cymharu cyfrannau pob grŵp amrywiaeth ar wahanol gamau o'n proses orfodi. Er enghraifft, mae dynion yn cynnwys:

- 49% o'r boblogaeth wrth ei gwaith
- 67% o'r unigolion a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni (cam 1)
- 73% o'r unigolion y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt (cam 2)
- 70% o'r unigolion a enwyd ar achosion gyda sancsiwn mewnol (cam 3, llwybr A)
- 85% o'r unigolion a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT (cam 4, llwybr B).

Mae nifer yr unigolion yn mynd yn llai ar bob cam o'r broses, gan ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau pendant yng nghamau 3 a 4. Yn gyffredinol, roedd:

- 6,860 o unigolion a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni yn 2018/19 (cam 1)
- 2,579 o unigolion wedi cael eu symud ymlaen i gael eu harchwilio (cam 2)
- 297 a enwyd ar achosion â sancsiwn mewnol (cam 3)

- 144 a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT (cam 4).

Mae ein dadansoddiad yn edrych ar y boblogaeth hysbys ymhlith y grwpiau hynny – hynny yw, y bobl y mae gennym wybodaeth am amrywiaeth amdanynt. Ar gyfer rhyw ac oedran, mae gennym wybodaeth ar gyfer 97% a 99% o'r boblogaeth wrth ei gwaith, yn y drefn honno, a 76% ar gyfer ethnigrwydd. Oherwydd y ffordd rydym wedi casglu data anabledd yn y gorffennol[5], dim ond cyfran y bobl sydd wedi datgan anabledd y gallwn ei nodi, sef 1% o'r boblogaeth wrth ei gwaith.

Mae set lawn o'r siartiau sy'n dangos y data ym mhob un o'r camau i'w gweld o dudalen 19 ymlaen. Lle mae digon o ddata ar gael, mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r gwahanol sancsiynau a wnaethom a'r rhai a wnaeth yr SDT. Rydym hefyd wedi edrych ar sut mae'r achosion yn yr SDT wedi'u cwblhau, yn enwedig p'un ai a oes gwahaniaeth yn ôl nodwedd amrywiaeth yn y defnydd o ganlyniadau y cytunwyd arnynt ai peidio. Rydym wedi darparu cyfraddau'r datganiad amrywiaeth ar bob cam.

Bydd canfyddiadau ein gwaith monitro amrywiaeth y bobl yn ein gwaith gorfodi yn dod yn nodwedd reolaidd o'n hadroddiad Cynnal Safonau Proffesiynol yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i fonitro tueddiadau'r dyfodol a gwerthuso effaith ein Strategaeth Orfodi newydd, yn ogystal â'n Safonau a'n Rheoliadau, a gyflwynwyd yn 2019.

---

[5] Cyn hyn, dim ond os oedd ganddynt anabledd roeddem yn gofyn i bobl nodi hynny. Ni wnaethom roi dewis i bobl ddweud nad oedd ganddynt neu os oedd yn well ganddynt beidio â dweud wrthym.

# Canfyddiadau allweddol 2018/19 a gwaith ac ymchwil pellach

Nodir canfyddiadau manwl yng nghyswllt camau 1 i 4, fel y disgrifir uchod, o dudalen 19 ymlaen, ynghyd â dadansoddiad o'r boblogaeth wrth ei gwaith, sydd i'w weld yn yr atodiad.

Gwyddom o'n dadansoddiad o amrywiaeth mewn cwmnïau cyfreithiol fod y proffesiwn wedi mynd yn fwy amrywiol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o fenywod na dynion bellach ymhlith cyfreithwyr sydd newydd gymhwyso, ac un o bob pum cyfreithiwr mewn cwmnïau cyfreithiol yn dod o gefndir BAME. Er bod hyn yn galonogol, mae ein dadansoddiad hefyd yn dangos bod heriau yn wynebu gwahanol grwpiau yn y proffesiwn, sydd, fel y nododd yr Athro John, yn debygol o effeithio ar broffil y rhai a adroddwyd i ni. Er enghraifft, mae cyfreithwyr BAME yn cael eu gorgynrychioli ymhlith ymarferwyr unigol (39%), yn cael eu gorgynrychioli mewn cwmnïau sy'n gwneud gwaith cleientiaid troseddol a phreifat yn bennaf (33% a 40%, yn y drefn honno) a heb ddigon o gynrychiolaeth yn y cwmnïau sy'n gwneud gwaith corfforaethol (15%). Mae'r rhain yn ffactorau y byddwn yn eu hystyried yn yr ymchwil a amlinellir ar ddiwedd y bennod hon am broffil y rhai a adroddwyd i ni.

Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r data sydd gennym yn ein systemau fel man cychwyn ar gyfer dadansoddi sut mae proffil pobl yn newid drwy ein prosesau gorfodi.

### Rhyw

Mae gormod o ddynion yn cael eu cynrychioli drwy gydol ein proses orfodi, gyda thua 70:30 o ddynion i fenywod yng nghamau 1 i 3. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth wrth ei gwaith o 49:51, dynion i fenywod. Gwelir y gorgynrychioli yn gyffredinol hefyd yn y gwahanol fathau o sancsiynau mewnol.

Fodd bynnag, mae cyfran y dynion yn cynyddu i 85% wrth edrych ar gam 4 (yr achosion a ddaeth i ben yn yr SDT), gyda gostyngiad cyfatebol ymysg menywod. Nid oes gorgynrychioli wrth gymharu'r unigolion a enwir ar achosion a gwblhawyd mewn gwrandawiad a'r rhai a ddaeth i ben drwy ganlyniad y cytunwyd arno.

O ran y sancsiynau a osodwyd gan yr SDT, mae canran y dynion a'r menywod a gafodd ddirwy (85% a 15%, yn y drefn honno) yr un fath â'r rhai a enwir ar achosion. Mae cyfran y dynion yn is na'r disgwyl ymhlith y rhai a gafodd eu gwahardd (50%) ac yn uwch i'r rhai a gafodd eu dileu oddi ar y Rhôl (92%). Fodd bynnag, mae nifer y bobl a gafodd eu gwahardd yn arbennig o fach (12), sy'n ei gwneud yn anodd dod i gasgliad o'r data hwn.

**Dadansoddiad rhyw o'r boblogaeth wrth ei gwaith ac yng nghamau 1-4 ein proses orfodi**




## Ethnigrwydd

Rydym yn cydnabod na fydd profiad grwpiau sy'n ffurfio'r gymuned BAME yr un fath, ond, ar gyfer rhannau o'r adroddiad hwn, mae'r niferoedd yn rhai o'r grwpiau sy'n ffurfio'r gymuned BAME yn rhy fach i'w hadrodd ar wahân, gan y gallai hynny arwain at risg y byddai modd adnabod unigolion. Mae hyn yn golygu y bydd rhywfaint o'r data ethnigrwydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer y grŵp BAME yn ei gyfanrwydd. Mae'r un peth yn wir am y grwpiau sy'n ffurfio'r grŵp gwyn. Dyna pam, yn y siart trosolwg isod, mai dim ond y grwpiau BAME a gwyn a ddangosir. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y dadansoddiad manwl.

Mae'r grŵp BAME, yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys 18% o'r boblogaeth wrth ei gwaith a 26% o'r unigolion a gafodd eu hadrodd i ni. Mae hyn yn codi i 32% o'r rhai y symudwyd eu hachosion ymlaen ar gyfer ymchwiliad yng ngham 2.

Unigolion Asiaidd a du yw 12% a 3% o'r boblogaeth wrth ei gwaith, yn y drefn honno, ac eto maent yn cael eu gorgynrychioli wrth edrych ar nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd i ni (cam 1), ar 18% a 4%.

Mae canran yr unigolion BAME yng ngham 3 ac yng ngham 4 yn 35%. Yng ngoleuni'r niferoedd bach o bobl sy'n gysylltiedig yng nghamau 3 a 4, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn wahaniaeth ystadegol dilys o'r 32% yr ymchwiliwyd iddynt yng ngham 2.

O edrych ar y mathau o sancsiynau mewnol a rhai'r SDT, mae'r niferoedd yn fach iawn, gan ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau o'r canfyddiadau. O'i gymharu â'r dadansoddiad o unigolion BAME a enwir ar achosion gyda sancsiwn mewnol (35%), mae cyfran is yn y mathau mwyaf difrifol o sancsiynau (ceryddon a dirwyon) ar 30%, ac yn y canlyniadau lleiaf difrifol (llythyrau cyngor a chanfyddiadau a rhybuddion) ar 33%. Unwaith eto, mae'r niferoedd bach yn golygu nad yw hyn yn ystadegol arwyddocaol.

O ran y sancsiynau a osodir gan yr SDT, o ystyried bod unigolion BAME yn cynnwys 35% o'r rhai y mae eu hachosion wedi'u cwblhau yn yr SDT, cânt eu cynrychioli'n gymesur ymhlith y rhai a gafodd ddirwy (34%), ac mae cyfran is ymhlith y rhai a gafodd eu dileu oddi ar y Rhôl (31%). Mae cyfran uwch o unigolion BAME ymhlith y rhai a gafodd eu gwahardd (45%), ond, unwaith eto, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau o hyn, gan mai dim ond 11 o unigolion oedd yn y grŵp hysbys a gafodd eu gwahardd.

Mae cyfran lai o unigolion BAME wedi'u henwi ar achosion a gafodd eu datrys yn yr SDT drwy ganlyniad y cytunwyd arno o'i gymharu â'r rhai a gafodd eu datrys drwy wrandawiad. Mae'r gyfran yn gostwng o 40% (38 allan o 94 o bobl) a enwyd ar benderfyniadau SDT a gafodd eu datrys drwy wrandawiad i 17% (pump o bob 30 o bobl) a gwblhaodd eu hachos drwy ganlyniad y cytunwyd arno. Unwaith eto, dylid nodi bod y niferoedd bach iawn ar gyfer y categorïau hyn yn ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau o'r canfyddiadau hyn.

**Dadansoddiad ethnigrwydd o'r boblogaeth wrth ei gwaith ac yng nghamau 1–4 ein proses orfodi**




## Oedran

Yn y siart hwn, rydym wedi grwpio'r categorïau oedran 16–24 oed a 25–34 oed gyda'i gilydd. Y rheswm am hyn yw bod nifer y bobl ifanc 16–24 oed a enwyd ar adroddiadau yng nghamau 1 a 2 yn rhai enwol, ac nid oedd unrhyw bobl ifanc 16–24 oed wedi'u henwi ar achosion gyda sancsiwn mewnol neu wedi'u cwblhau yn yr SDT.

Nid oes digon o gynrychiolaeth o bobl yn y categorïau oedran iau (44 ac iau) a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni o'i gymharu â chyfran eu poblogaeth wrth ei gwaith. Mae'r gwrthwyneb yn wir am y rhai yn y categorïau oedran hŷn (45 oed a throsodd) sy'n cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth wrth ei gwaith.

Wrth edrych ar achosion sy'n ymwneud ag unigolion yr aethpwyd ymlaen i ymchwilio iddynt, nid oes fawr o wahaniaeth i unrhyw un o'r grwpiau oedran.

Ar gyfer pob grŵp oedran, mae canran yr unigolion a enwir ar achosion â sancsiwn mewnol (cam 3) yn gymesur i raddau helaeth â'r rhai y symudwyd eu hachosion ymlaen ar gyfer ymchwiliad (cam 2).

Ar gyfer pob grŵp oedran, mae canran y rhai y daeth eu hachosion i ben yn yr SDT (cam 4) yn gymesur i raddau helaeth â'r rhai y symudwyd eu hachosion ymlaen ar gyfer ymchwiliad (cam 2), gyda rhai gwahaniaethau bach ar gyfer y grwpiau ieuengaf a hynaf. Roedd y rhai o dan 34 oed yn cynnwys 11% o'r achosion yr ymchwiliwyd iddynt a daeth 9% o'r rheini i ben yn yr SDT. Roedd y rhai 65 oed a throsodd yn cynnwys 10% o'r pryderon a symudwyd ymlaen ar gyfer ymchwiliad a daeth 13% o'r achosion i ben yn yr SDT.

Mae cyfran lai o unigolion 45–54 oed wedi'u henwi ar achosion a ddaeth i ben drwy ganlyniad y cytunwyd arno o'i gymharu â'r rhai a gwblhawyd gan wrandawiad, sy'n gostwng o 34% i 24%. Mae'r gwrthwyneb yn wir am unigolion 65+ oed, gan gynyddu o 10% i 21%.

Fodd bynnag, nid oes patrwm clir ac mae'r niferoedd yn rhy fach i ddod i unrhyw gasgliadau o'r canfyddiadau wrth ystyried y mathau mewnol ac allanol o sancsiynau ar draws categorïau oedran.

**Dadansoddiad oedran o'r boblogaeth wrth ei gwaith ac yng nghamau 1–4 ein proses orfodi**




## Anabledd

Oherwydd y niferoedd bach iawn dan sylw, dim ond ar gamau 1 a 2 y gallwn adrodd am nifer y bobl anabl sy'n ymwneud â'n prosesau gorfodi. Er hynny, rydym yn gweld gorgynrychioli ymysg unigolion anabl mewn pryderon sy'n cael eu hadrodd i ni o'u cymharu â'r boblogaeth wrth ei gwaith. Roedd 141 o unigolion anabl wedi'u henwi ar y pryderon a gawsom (2% o'r cyfanswm) o'i gymharu ag 1% yn y boblogaeth wrth ei gwaith.

O'r rhai a enwyd ar y pryderon a adroddwyd i ni, cafodd achosion 62 o bobl anabl eu symud ymlaen ar gyfer ymchwiliad (2% o gyfanswm nifer yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt).

Mae angen i gyfraddau datgan ar gyfer anabledd wella cyn y gallwn ddod i unrhyw gasgliadau ystyrlon o'r data.

**Anabledd a nodir ymhlith y boblogaeth wrth ei gwaith ac yng nghamau 1-2 ein proses orfodi**




## Gwaith ac ymchwil pellach

Byddwn yn adeiladu ar ganfyddiadau 2018/19, sydd wedi rhoi llinell sylfaen i ni ar gyfer gwaith monitro yn y dyfodol ac a fydd yn rhan o gynlluniau ehangach ar gyfer gwerthuso effaith ein Strategaeth Orfodi newydd a'n Safonau a'n Rheoliadau newydd.

Mae mwy y gallwn ei wneud bob amser i sicrhau bod ein penderfyniadau'n gyson, yn deg ac nad ydynt yn cynnwys rhagfarn. Yn ogystal â'r gwaith parhaus rydym wedi'i nodi yn ein strategaeth gorfforaethol a'n cynllun busnes, byddwn yn bwrw ymlaen ag ystod o waith mewn ymateb i'r canfyddiadau a nodir yn y bennod hon:

- Byddwn yn comisiynu ymchwil annibynnol i'r ffactorau sy'n llywio'r gwaith o adrodd am bryderon am gyfreithwyr BAME i ni, i nodi'r hyn y gallwn ei wneud ynglŷn â hyn a ble y gallwn weithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth.
- Ochr yn ochr â'n gwaith parhaus i sefydlu tîm sicrhau ansawdd 'hyd braich' mewnol, byddwn yn cynnal adolygiad ymlaen llaw o benderfyniadau yn ein proses asesu a datrys yn gynnar, lle y penderfynir cyfeirio mater ar gyfer ymchwiliad.
- Byddwn yn gweithio i gynyddu nifer yr unigolion sy'n datgelu gwybodaeth am eu nodweddion amrywiaeth i ni.
- Byddwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar broffil pobl yn ein prosesau gorfodi ac yn cynnwys dadansoddiad rhyngadrannol lle y gallwn.
- Byddwn yn gwerthuso'r newidiadau rydym wedi'u gwneud drwy ein rhaglen diwygio rheoleiddiol, gyda deall yr effeithiau ar EDI yn rhan allweddol o'r gwaith hwnnw.
- Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein gwaith ehangach i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth yn y proffesiwn a'n gwaith parhaus i gefnogi cydymffurfiaeth cwmnïau bach.

# Proffil amrywiaeth: Camau 1 a 2

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r unigolion a enwir ar y pryderon a adroddwyd i ni (cam 1) a'r pryderon rydym yn bwrw ymlaen i ymchwilio iddynt (cam 2), wedi’u gosod yn erbyn dadansoddiad o'r boblogaeth wrth ei gwaith.

## Niferoedd ar y camau hyn

Yn 2018/19, adroddwyd 10,576 o bryderon i ni. O'r rhain, roedd 6,132 yn ymwneud ag un unigolyn neu fwy, neu 58% o'r holl bryderon. Mae'r data yn yr adran hon yn ymwneud â'r 6,860 o unigolion a enwyd ar y pryderon hynny. Fe wnaethom gyfrif unigolyn bob tro yr oedd yn ymddangos ar bryder a adroddwyd i ni, felly efallai y bydd rhai unigolion yn cael eu hadrodd fwy nag unwaith. Gan ein bod yn canolbwyntio ar y dadansoddiad amrywiaeth o unigolion yn ein prosesau gorfodi, nid yw pryderon sy'n ymwneud â chwmnïau wedi'u cynnwys.

O'r 6,860 o unigolion a enwyd ar y pryderon a gawsom, fe wnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio i 2,579 o unigolion.

Wedi'u rhannu gan bedair nodwedd amrywiaeth (ethnigrwydd, rhyw, oedran ac anabledd), mae'r siartiau yn yr adran hon yn dangos:

- y boblogaeth wrth ei gwaith
- cam 1: unigolion a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni ar gyfer 2018/19
- cam 2: unigolion a enwyd ar y pryderon hynny yn 2018/19 y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt.

## Cyfraddau datgelu

Mae'r siartiau yn yr adran hon yn cynrychioli dadansoddiad o boblogaethau hysbys ac unigolion hysbys yn unig – mae hynny'n golygu'r unigolion y mae gennym ddata amrywiaeth ar eu cyfer. Mae cyfran yr unigolion y mae gennym ddata amrywiaeth ar eu cyfer yn amrywiol ac wedi'i nodi ar gyfer pob nodwedd.

## Rhyw

Mae gorgynrychioli yn nifer y dynion a enwir ar y pryderon a gawn (67%) wrth eu cymharu â'u cynrychiolaeth yn y boblogaeth wrth ei gwaith (49%). Mae hyn yn cynyddu pan fyddwn yn edrych ar yr unigolion lle gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt, lle mae 73% yn ddynion.

Dylid ystyried y cyfrannau yn y siartiau ochr yn ochr â'r cyd-destun canlynol:

- Poblogaeth wrth ei gwaith: roeddem yn gwybod rhyw 152,196 o'r 157,359 o’r boblogaeth wrth ei gwaith (97%) o 1 Tach 2019.
- Cam 1: o'r 6,860 o unigolion a enwyd ar bryderon a gawsom, roeddem yn gwybod rhyw 6,601 ohonynt (96%).

Cam 2: o'r 2,579 o unigolion y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt, roeddem yn gwybod rhyw 2,461 o unigolion (95%).

**Camau 1 a 2 – dadansoddiad rhyw**




## Ethnigrwydd

Yn yr adran hon, rydym wedi gallu chwalu'r grŵp BAME oherwydd bod y pedwar grŵp a gaiff eu cynrychioli yn y siartiau yn ddigon mawr i beidio â datgelu unigolion. Mewn adrannau diweddarach, sy'n edrych ar ganlyniadau achosion, mae'r poblogaethau'n mynd yn llawer llai. Oherwydd hyn, dim ond ar gyfer y grŵp BAME ehangach y gallwn gyflwyno data. Er mwyn caniatáu ar gyfer cymharu ar draws pob cam o'r broses orfodi, rydym hefyd wedi nodi'r siartiau sy'n dangos y grŵp BAME fel un.

Nid oes digon o gynrychiolaeth o unigolion gwyn ar bryderon a adroddwyd i ni o’i gymharu â'r boblogaeth wrth ei gwaith. Mae hyn yn lleihau wrth edrych ar unigolion gwyn a enwyd ar bryderon y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt. Mae'r gwrthwyneb yn wir am unigolion yn y grwpiau Asiaidd a du.

**Camau 1 a 2 – dadansoddiad ethnigrwydd**




Yn gyffredinol, mae unigolion o'r grŵp BAME yn cynnwys 18% o'r boblogaeth wrth ei gwaith, 26% o'r rhai a enwir ar y pryderon a gawsom, a 32% o’r unigolion y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt.

O edrych ar gyfran yr ymchwiliadau y gwnaethom fwrw ymlaen â nhw ar gyfer pob grŵp, fe wnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio i 47% o’r pryderon am unigolion BAME (691 o 1,486), o'i gymharu â 34% o’r pryderon am unigolion gwyn (1,441 o 4,273).

Sylwch, mae anghysondeb o 1% rhwng data cam 2 pan gynrychiolir y grŵp BAME fel un o'i gymharu â'r siart blaenorol. Mae hyn o ganlyniad i dalgrynnu.

Dylid ystyried y cyfrannau yn y siartiau ochr yn ochr â'r cyd-destun canlynol:

- Poblogaeth wrth ei gwaith: roeddem yn gwybod ethnigrwydd 120,183 o'r 157,359 o’r boblogaeth wrth ei gwaith (76%) o 1 Tach 2019.
- Cam 1: o'r 6,860 o unigolion a enwyd ar bryderon a gawsom, roeddem yn gwybod ethnigrwydd 5,759 ohonynt (84%).
- Cam 2: o'r 2,579 o unigolion y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt, roeddem yn gwybod ethnigrwydd 2,132 o unigolion (83%).

**Camau 1 a 2 – dadansoddiad rhyw (gwyn a BAME)**




## Oedran

Nid oes digon o gynrychiolaeth o bobl yn y categorïau oedran iau (44 ac iau) yn y pryderon a adroddwyd i ni o’i gymharu â'u cyfran yn y boblogaeth wrth ei gwaith. Mae'r gwrthwyneb yn wir am y rhai yn y categorïau oedran hŷn (45 oed a throsodd) sy'n cael eu gorgynrychioli mewn adroddiadau o'u cymharu â'r boblogaeth wrth ei gwaith.

Nid oes llawer o wahaniaeth i unrhyw un o'r categorïau oedran o ran y gyfradd yr ydym yn bwrw ymlaen i ymchwilio i bryderon sy'n ymwneud ag unigolion.

Dylid ystyried y cyfrannau yn y siartiau ochr yn ochr â'r cyd-destun canlynol:

- Poblogaeth wrth ei gwaith: roeddem yn gwybod oedran 157,169 o'r 157,359 o’r boblogaeth wrth ei gwaith (99%) o 1 Tach 2019.
- Cam 1: o'r 6,860 o unigolion a enwyd ar bryderon a gawsom, roeddem yn gwybod oedran 6,748 ohonynt (98%).
- Cam 2: o'r 2,579 o unigolion y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt, roeddem yn gwybod oedran 2,510 o unigolion (97%).
- Gan fod nifer yr unigolion 16–25 oed yn y boblogaeth wrth ei gwaith yn cynrychioli llai nag 1%, maent wedi'u grwpio gyda'r grŵp oedran 25–34. Roedd nifer y pryderon a gawsom ac y gwnaethom fwrw ymlaen â nhw o ran pobl ifanc 16–24 oed yn rhy fach i'w cynrychioli ar eu pen eu hunain.

**Camau 1 a 2 – dadansoddiad oedran**




## Anabledd

Er bod y niferoedd yn fach, ac mae hwn yn faes lle mae nifer y datganiadau'n debygol o fod yn isel, mae gormod o unigolion anabl wedi'u henwi ar bryderon a gawsom ac ar y pryderon hynny y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt, o'i gymharu â'r boblogaeth wrth ei gwaith.

Dylid ystyried y cyfrannau yn y siartiau ochr yn ochr â'r cyd-destun canlynol:

- Y boblogaeth wrth ei gwaith: Nododd 1,673 o 157,359 (1%) fod ganddynt anabledd, o 1 Tachwedd 2019. Rydym yn credu bod hyn yn cael ei dangynrychioli yng ngoleuni 19% o'r gweithlu sy'n dweud eu bod yn anabl.[6]
- Cam 1: o'r 6,860 o unigolion a enwyd ar bryderon, roedd anabledd wedi'i nodi ar 141 ohonynt (2%).
- Cam 2: o'r 2,579 o unigolion y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt, roedd anabledd wedi'i nodi ar gyfer 62 o unigolion (2%).

[6] commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-7540/

## Camau 1 a 2 – anabledd a nodwyd



# Proffil amrywiaeth: Llwybr A – Camau 1, 2 a 3

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r achosion a ddaeth i ben drwy lwybr gorfodi A, sy'n golygu'r adroddiadau sy'n cael eu datblygu ar gyfer ymchwiliad (cam 2) ac sy'n arwain at gosb fewnol (cam 3).

Cafwyd 324 o ymchwiliadau yn 2018/19 a arweiniodd at gymryd camau gorfodi mewnol a chyhoeddi sancsiwn. O'r rhain, roedd 264 o achosion yn ymwneud ag un unigolyn neu fwy. Yn gyffredinol, cafodd 297 o'r unigolion a enwyd ar achosion sancsiwn mewnol.

Efallai fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr unigolion sy'n ymwneud â chamau 1 a 2 a'r rhai sy'n ymwneud â cham 3 yn yr adroddiad hwn ar gyfer 2018/19, ond mae'n annhebygol o fod yn sylweddol. Y rheswm am hyn yw nad yw achosion bob amser yn cael eu derbyn a'u datrys yn yr un flwyddyn. Mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar weithgarwch blwyddyn 2018/19, nid y canlyniadau ar gyfer un grŵp o achosion.

Mae dau siart ar gyfer pob nodwedd amrywiaeth yn yr adran hon. Mae'r cyntaf yn dangos proffil:

- cam 1: unigolion a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni ar gyfer 2018/19
- cam 2: unigolion a enwir ar y pryderon hynny yn 2018/19 y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt
- cam 3: unigolion a enwyd ar achosion a arweiniodd at sancsiwn SRA yn 2018/19.

Mae'r ail siart yn dangos dadansoddiad amrywiaeth unigolion a gafodd lythyr cyngor, canfyddiad a rhybudd, cerydd, a dirwy, er bod rhai cyfyngiadau o ran adrodd ar y data hwn.

### Cyfyngiadau wrth adrodd data

Mae cyfyngiadau yn yr hyn rydym wedi gallu ei adrodd yn yr adran hon:

- Nid ydym wedi gallu cynnwys dadansoddiad o anabledd oherwydd bod y niferoedd dan sylw yn rhy fach i'w cyflwyno ar eu pennau eu hunain felly byddem mewn perygl o ddatgelu gwybodaeth bersonol am y bobl dan sylw. Am yr un rheswm, mae ethnigrwydd yn cael ei rannu'n ddau grŵp, BAME a gwyn. Rydym hefyd wedi grwpio'r grwpiau oedran 55–64 a 65+ gyda'i gilydd wrth edrych ar y mathau o ganlyniadau.
- Unwaith eto, oherwydd y niferoedd bach a gynrychiolir yn rhai o'r mathau unigol o ganlyniadau, a allai ddatgelu pwy yw rhywun, dim ond ar lythyrau cyngor, canfyddiadau a rhybuddion, ceryddon a dirwyon yr ydym wedi gallu adrodd. Gan fod y niferoedd a gynrychiolir ym mhob un o'r grwpiau hyn yn rhy fach i gael eu cynrychioli ar eu pen eu hunain, rydym wedi grwpio'r mathau o sancsiynau yn barau: y sancsiynau mwy difrifol (ceryddon a dirwyon) a'r sancsiynau llai difrifol (llythyrau cyngor a chanfyddiadau a rhybuddion).
- Rydym hefyd wedi dileu mathau eraill o sancsiynau, megis amodau a osodir ar amodau gwaith a gorchmynion adran 47 (2)(g), gan fod y data yn y categori hwn yn rhy fach i gael ei gynrychioli ar ei ben ei hun.

- Nid ydym wedi cynnwys gwybodaeth am orchmynion adran 43. Gan fod y math hwn o sancsiwn yn berthnasol i'r rhai nad ydynt yn gyfreithwyr sy'n gweithio yng nghwmnïau a busnesau'r gyfraith rydym yn eu rheoleiddio, ac felly nid ydynt i raddau helaeth ar y Rhôl cyfreithwyr, nid oes ganddynt dystysgrif gwaith ac nid oes ganddynt gyfrifon mySRA, felly nid oes gennym set ddata mor gynhwysfawr o'r unigolion hyn o'u cymharu â'r boblogaeth wrth ei gwaith.

Dylid nodi hefyd, gan fod y niferoedd yn fach, efallai na fydd amrywiadau'n ystadegol ddilys. Ac oherwydd bod y niferoedd yn y siartiau mathau o sancsiynau mor fach ac y gall prosesau dadansoddi canrannol fod yn gamarweiniol, rydym hefyd wedi darparu rhifau.

## Ein canfyddiadau

### Rhyw

Nid oes fawr o wahaniaeth yng nghyfran y dynion a'r menywod a enwyd ar ymchwiliadau ac a enwyd ar achosion sydd wedi arwain at gosb fewnol. Ar bob cam, mae'r dadansoddiad tua 70% o ddynion a 30% o fenywod.

O'r 297 o unigolion a enwyd ar achosion a arweiniodd at sancsiwn mewnol, mae'r siart yn cynrychioli 226 lle'r oeddem yn gwybod eu rhyw (76%).

**Llwybr A: Camau 1, 2 a 3 – dadansoddiad rhyw**



## Canlyniadau - rhyw

Gwelir y gyfran o 70:30 a nodir yng nghamau 1, 2 a 3 i raddau helaeth yn y mathau o sancsiynau.

Roeddem yn gwybod rhyw:

- 125 o'r 143 o lythyrau cyngor a chanfyddiadau a rhybuddion (87%)
- 87 o'r 117 ceryddon a dirwyon (74%).




## Ethnigrwydd

Mae canran yr unigolion gwyn a BAME a enwyd ar achosion yng ngham 3 yn gymesur â chanran yr unigolion ar bryderon y gwnaethom fwrw ymlaen i'w harchwilio yng ngham 2. Nid yw'r gwahaniaeth o 3% yn wahaniaeth ystadegol dilys.

Mae dadansoddiad manylach o gyfradd yr unigolion a enwyd ar achosion sydd â sancsiwn mewnol yn debyg iawn rhwng y grwpiau gwyn a BAME. Roedd 68 o unigolion BAME wedi'u henwi ar achosion gyda sancsiwn mewnol ac ymchwiliwyd i 691 ohonynt (10%). Mae hyn yn cymharu â 129 o unigolion gwyn a gafodd sancsiwn a'r 1,441 (9%) a ymchwiliwyd iddynt.

O'r 297 o unigolion a enwyd ar achosion â sancsiwn mewnol, roeddem yn gwybod ethnigrwydd 197 o unigolion (66%).

**Llwybr A: Camau 1, 2 a 3 – dadansoddiad ethnigrwydd**




## Canlyniadau - ethnigrwydd

O'i gymharu â'r dadansoddiad o unigolion BAME a enwyd ar achosion gyda sancsiwn mewnol (35%), mae cyfran is yn y mathau mwyaf difrifol o sancsiynau (ceryddon a dirwyon) ar 30%, ac yn y canlyniadau lleiaf difrifol (llythyrau cyngor a chanfyddiadau a rhybuddion) ar 33%.

Roeddem yn gwybod ethnigrwydd:

- 107 o'r 143 o unigolion a gafodd lythyr cyngor a/neu ganfyddiad a rhybudd (75%)
- 74 o'r 117 o unigolion a gafodd gerydd a/neu ddirwy (63%).

**Llwybr A: Mathau o ganlyniadau – dadansoddiad ethnigrwydd**



## Oedran

Mae'r canrannau'n gymesur ar y cyfan wrth gymharu'r rhai a enwyd ar achosion â sancsiwn mewnol (cam 3) â'r rhai yr ymchwiliwyd iddynt (cam 2). Fodd bynnag, mae ychydig o gynnydd ymysg y rhai 16–34 oed a 65+ oed.

Nid oedd gan unrhyw unigolion 16–24 oed a enwyd ar achosion sancsiwn mewnol. Fel y nodir yn proffil amrywiaeth: adran camau 1 a 2, mae nifer y bobl ifanc 16–24 oed a enwyd ar adroddiadau yng nghamau 1 a 2 yn rhai enwol.

O'r 297 o unigolion a enwyd ar achosion â sancsiwn mewnol, roeddem yn gwybod oedran 255 o unigolion (86%).

**Llwybr A: Camau 1, 2 a 3 – dadansoddiad oedran**




## Canlyniadau - oedran

O edrych ar fathau mewnol ac allanol o sancsiynau ar draws categorïau oedran, nid oes patrwm clir ac mae'r niferoedd yn rhy fach i ddod i unrhyw gasgliadau o'r canfyddiadau.

Roeddem yn gwybod oedran:

- 131 o’r 143 o lythyrau cyngor a chanfyddiadau a rhybuddion (92%)
- 101 o’r 117 ceryddon a dirwyon (86%).

**Llwybr A: Mathau o ganlyniadau – dadansoddiad oedran**



# Proffil amrywiaeth: Llwybr B – Camau 1, 2 a 4

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r achosion a ddaeth i ben drwy lwybr gorfodi B: hynny yw, y pryderon y gwnaethom fwrw ymlaen i'w harchwilio (cam 2) ac a ddaeth i ben yn yr SDT. Rydym yn erlyn yr achosion mwyaf difrifol yn yr SDT. Yr SDT sy'n gwneud y penderfyniadau yn yr achosion y cyfeirir atynt yn yr adran hon. Mae'n annibynnol arnom a gall osod ystod ehangach o sancsiynau na'r hyn y gallwn ni ei wneud.

Daeth 125 o achosion i ben yn yr SDT yn 2018/19, gyda 144 o unigolion wedi'u henwi ar yr achosion hyn. Mae 125 o'r achosion yn cynnwys y rhai a gafodd eu datrys drwy ganlyniad y cytunwyd arno (i gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r adran ar ganlyniadau y cytunwyd arnynt). Mae'r adran hon yn ymwneud â'r 144 o unigolion a'r sancsiynau a gyflwynodd yr SDT o ganlyniad i'r achosion hyn.

Gan y gall un achos arwain at fwy nag un sancsiwn, mae'r siartiau sancsiwn yn cyfleu unigolion sydd wedi cael canlyniad o fwy nag un math. Er enghraifft, os yw unigolyn wedi cael ei ddileu oddi ar y Rhôl ac wedi cael dirwy, bydd yn cael ei gyfrif yn erbyn pob un. Roedd unigolion wedi'u henwi yn erbyn 147 math o sancsiynau.

Mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw orgyffwrdd rhwng yr unigolion sy'n gysylltiedig â chamau 1 a 2 a'r rhai sy'n ymwneud â cham 4. Y rheswm am hyn yw ei bod yn cymryd mwy na blwyddyn i ymchwilio, cyfeirio a chwblhau mater yn yr SDT. Mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar weithgarwch blwyddyn waith, nid y canlyniadau ar gyfer un grŵp o achosion.

Mae dau siart ar gyfer pob nodwedd amrywiaeth yn yr adran hon. Mae'r cyntaf yn dangos:

- cam 1: unigolion a enwyd ar y pryderon a adroddwyd i ni ar gyfer 2018/19
- cam 2: unigolion a enwyd ar y pryderon yn 2018/19 y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt
- cam 4: unigolion a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT yn 2018/19.

Mae'r ail siart yn dangos y dadansoddiad amrywiaeth o unigolion a gafodd bob math o sancsiwn.

## Cyfyngiadau wrth adrodd data

Mae cyfyngiadau yn yr hyn rydym wedi gallu ei adrodd yn yr adran hon:

- Nid ydym wedi gallu cynnwys dadansoddiad o anabledd oherwydd bod y niferoedd dan sylw yn rhy fach i'w cyflwyno ar eu pennau eu hunain felly byddem mewn perygl o ddatgelu gwybodaeth bersonol am y bobl dan sylw. Am yr un rheswm, mae ethnigrwydd yn cael ei rannu'n ddau grŵp, BAME a gwyn.
- Mae'r nifer fach o bobl hefyd yn golygu nad ydym wedi gallu adrodd ar bob math o sancsiwn, gan y gallai gwneud hynny olygu ein bod yn datgelu gwybodaeth am y bobl dan sylw. Rydym wedi adrodd ar ddirwyon a dileu oddi ar y Rhôl ar gyfer pob un o'r tair nodwedd amrywiaeth a'r gwaharddiadau o ran ethnigrwydd a rhyw, ond nid oedran.

- Dylid nodi hefyd, gan fod y niferoedd yn fach, efallai na fydd amrywiadau'n ystadegol ddilys. Ac oherwydd bod y niferoedd yn y siartiau mathau o sancsiynau mor fach ac y gall prosesau dadansoddi canrannol fod yn gamarweiniol, rydym hefyd wedi darparu rhifau.

### Nodyn ar waharddiadau

Yn 2018/19, gwaharddodd yr SDT 12 unigolyn. Ac eithrio oedran, lle mae dosbarthiad y gwaharddiadau yn rhy fach i'w ddangos ar draws y grwpiau oedran, rydym wedi cynnwys cyfran yr achosion o wahardd unigolion a gawsom ar draws ethnigrwydd a rhyw. Mae hyn er mwyn rhoi darlun mor llawn â phosibl o'r dadansoddiad o fathau o sancsiynau ar draws y nodweddion amrywiaeth. Fodd bynnag, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliad ystyrlon o'r darn penodol hwn o ddata, gan ei fod yn set mor fach, a gallai ychwanegu neu dynnu gwaharddiad at y grŵp hwn newid y cyfrannau'n sylweddol.

## Ein canfyddiadau

### Rhyw

Mae gormod o ddynion ac nid oes digon o fenywod wedi'u henwi ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT o'u cymharu â'r rhai a enwyd ar adroddiadau y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt. Mae cyfran y dynion yn cynyddu, o 73% i 85%, ac mae cyfran y menywod yn gostwng, o 27% i 15%.

Roeddem yn gwybod rhyw 140 o'r 144 o unigolion a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT (97%).

**Llwybr B: Camau 1, 2 a 4 – dadansoddiad rhyw**



## Canlyniadau'r SDT - rhyw

Mae canran y dynion a'r menywod a gafodd ddirwy yn gymesur i raddau helaeth â'r rhai a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT. Mae'r rhai a gafodd eu dileu oddi ar y Rhôl ychydig yn llai felly, gyda chyfran y dynion yn cynyddu o 85% i 92%, a chyfran y menywod yn gostwng o 15% i 8%.

Roeddem yn gwybod rhyw yr holl unigolion a gafodd y sancsiynau a nodwyd yn y siart ar yr ochr dde (52 o ddirwyon, 12 gwaharddiad, a 71 wedi'u dileu oddi ar y Rhôl).




## Ethnigrwydd

Mae canran yr unigolion gwyn a BAME a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT (cam 4) yn gymesur ar y cyfan â chanran yr unigolion ar yr adroddiadau y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt (cam 2). Nid yw'r gwahaniaeth o 3% yn wahaniaeth ystadegol dilys.

Roeddem yn gwybod ethnigrwydd 124 o'r 144 o unigolion a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT (86%).




**Canlyniadau'r SDT - ethnigrwydd**

Nid oes llawer o wahaniaeth yng nghyfran yr unigolion gwyn a BAME a gafodd ddirwy (34%) neu eu dileu oddi ar y Rhôl (31%) o'i gymharu â'r dadansoddiad o unigolion a enwyd ar yr achosion a ddaeth i ben yn yr SDT (35%).

Roeddem yn gwybod ethnigrwydd 47 o'r 52 o unigolion a gafodd ddirwy (90%), 11 o'r 12 unigolyn a gafodd eu gwahardd (92%), a 61 o'r 71 o unigolion a gafodd eu dileu oddi ar y Rhôl (86%).




## Oedran

Ar gyfer pob grŵp oedran, mae canran y rhai y daeth eu hachosion i ben yn yr SDT (cam 4) yn gymesur i raddau helaeth â'r rhai y symudwyd eu hachosion ymlaen ar gyfer

ymchwiliad (cam 2), gyda rhai gwahaniaethau bach ar gyfer y grwpiau ieuengaf a hynaf. Roedd y rhai 34 ac iau hynny'n cynnwys 11% o achosion yr ymchwiliwyd iddynt a daeth 9% o'r rhai a enwyd ar achosion i ben yn yr SDT. Roedd y rhai 65 oed a throsodd yn cynnwys 10% o achosion yr ymchwiliwyd iddynt a daeth 13% o'r rhai a enwyd ar achosion i ben yn yr SDT.

Roeddem yn gwybod oedran 141 o'r 144 o'r unigolion a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT (98%). Ni chafodd unrhyw bobl ifanc 16–25 oed eu henwi ar achosion a gynhaliwyd yn yr SDT ar gyfer 2018/19, ac mae nifer y bobl ifanc 16–24 oed a enwyd ar bryderon yng nghamau 1 a 2 yn rhai enwol.

**Llwybr B: Camau 1, 2 a 4 – dadansoddiad oedran**




## Canlyniadau'r SDT - oedran

O edrych ar y mathau o sancsiynau ar draws categorïau oedran, nid oes patrwm clir ac mae'r niferoedd yn rhy fach i ddod i unrhyw gasgliadau o'r canfyddiadau.

Roeddem yn gwybod oedran yr holl unigolion a gafodd y sancsiynau a nodwyd ar yr ochr dde (52 o ddirwyon, a 71 wedi'u dileu oddi ar y Rhôl). Rydym wedi grwpio'r oedrannau 25–34 a 35–44 gyda'i gilydd yn y siart mân oherwydd y niferoedd bach dan sylw.

## Llwybr B: Mathau o ganlyniadau – dadansoddiad oedran (dirwy)




## Llwybr B: Mathau o ganlyniadau – dadansoddiad oedran (dileu oddi ar y Rhôl)



# Proffil amrywiaeth: Canlyniadau y cytunwyd arnynt

Mae canlyniadau y cytunwyd arnynt yn dod yn fwy cyffredin yn ein proses orfodi. Gellir rhannu'r manteision sydd gennym o ran datrys achosion drwy ganlyniad y cytunwyd arno – yn gyflym ac am gostau llai – gyda'r ymatebwyr yn yr achosion hyn.

Mae'r siartiau yn yr adran hon yn cymharu dadansoddiad amrywiaeth yr unigolion hynny y daeth eu hachos i ben yn yr SDT drwy ganlyniad y cytunwyd arno a'r rhai y daeth eu hachos i ben mewn gwrandawiad. O'r 125 o achosion a ddaeth i ben yn yr SDT yn 2018/19, datryswyd 33 drwy ganlyniad y cytunwyd arno, gyda 34 o unigolion wedi'u henwi ar yr achosion hynny. Daeth y 92 achos arall i ben drwy wrandawiad, gyda 110 o unigolion wedi'u henwi ar yr achosion hynny.

## Cyfyngiadau wrth adrodd data

Mae cyfrannau'r achosion a ddaeth i ben drwy ganlyniad y cytunwyd arno yn cael eu dadansoddi yn ôl tair nodwedd amrywiaeth: ethnigrwydd, rhyw ac oedran. Oherwydd y nifer fach iawn o achosion, nid ydym wedi gallu cyflwyno gwybodaeth am ganlyniadau'r achosion hyn, oherwydd gallai gwneud hynny olygu ein bod yn datgelu gwybodaeth bersonol am y bobl hynny sy'n gysylltiedig. Am yr un rheswm, mae ethnigrwydd yn cael ei rannu'n ddau grŵp: BAME a gwyn.

## Rhyw

Nid oes gwahaniaeth yng nghanrannau'r dynion a'r menywod wrth gymharu'r unigolion a enwyd ar achosion a gwblhawyd drwy wrandawiad a'r rhai a ddaeth i ben drwy ganlyniad y cytunwyd arno.

Roeddem yn gwybod rhyw y 34 o unigolion a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT drwy ganlyniad y cytunwyd arno. Roeddem yn gwybod rhyw 106 o'r 110 o unigolion lle daeth gwrandawiad i ben yn yr SDT (96%).




## Ethnigrwydd

Er bod y niferoedd yn fach iawn, mae cyfran lai o unigolion BAME wedi'u henwi ar achosion a ddaeth i ben drwy ganlyniad y cytunwyd arno (17% yn cynnwys 5 unigolyn) o'i gymharu â'r rhai a gwblhawyd drwy wrandawiad (40% yn cynnwys 38 o unigolion).

Roeddem yn gwybod ethnigrwydd 30 o'r 34 o unigolion a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT drwy gytundeb y cytunwyd arno (88%). Roeddem yn gwybod rhyw 94 o'r 110 o unigolion lle daeth gwrandawiad i ben yn yr SDT (85%).



## Oedran

Mae cyfran lai o unigolion 45–54 oed wedi'u henwi ar achosion a gafodd eu datrys drwy ganlyniad y cytunwyd arno o'i gymharu â'r rhai a gwblhawyd gan wrandawiad, sy'n gostwng o 34% i 24%. Mae'r gwrthwyneb yn wir am unigolion 65+ oed, gan gynyddu o 10% i 21%.

Roeddem yn gwybod oedran y 34 o unigolion a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT drwy gytundeb y cytunwyd arno. Roeddem yn gwybod rhyw 107 o'r 110 o unigolion lle daeth gwrandawiad i ben yn yr SDT (97%).

**Canlyniadau y cytunwyd arnynt – dadansoddiad oedran**



# Atodiad: Proffil amrywiaeth y bobl rydym yn eu rheoleiddio

Mae'r siartiau yn yr atodiad hwn yn dangos y dadansoddiad amrywiaeth o'r boblogaeth wrth ei gwaith, sy'n cynnwys:

- unigolion ar y Rhôl sydd â thystysgrif gwaith gyfredol
- cyfreithwyr Ewropeaidd cofrestredig, cyfreithwyr tramor cofrestredig neu gyfreithwyr Ewropeaidd eithriedig
- yn dibynnu ar y rôl, rhai nad ydynt yn gyfreithwyr, megis rheolwyr a swyddogion cydymffurfio.

Mae'r data'n seiliedig ar 'gipolwg' a gymerwyd ar 1 Tachwedd 2019 o ddata a ddarparwyd gan unigolion drwy eu cyfrifon mySRA. Y boblogaeth wrth ei gwaith o'r dyddiad hwn oedd 157,359.

Gan fod y pryderon a nodwyd i ni a'r achosion a ystyrir yn yr adroddiad hwn yn deillio o 2018/19, dyma'r ffynhonnell ddata fwyaf priodol i gymharu proffil amrywiaeth y bobl a gynrychiolir yn ein prosesau gorfodi. Mae'r data hwn yn wahanol i'r data a gaiff ei gasglu bob yn ail flwyddyn yn ein proses casglu data amrywiaeth cwmnïau <https://www.sra.org.uk/solicitors/resources/diversity-toolkit/law-firm-diversity-tool/>, sy'n cynnwys cyfreithwyr, cyfreithwyr eraill a staff eraill sy'n gweithio mewn cwmnïau cyfreithiol, ac mae'n defnyddio dulliau modelu ystadegol i amcangyfrif y dadansoddiad amrywiaeth ar draws yr holl nodweddion.

Dylid nodi, fodd bynnag, na fydd yr holl unigolion sy'n pasio drwy ein proses orfodi ymhlith y boblogaeth wrth ei gwaith a nodir isod. Mae gennym rôl o ran rheoleiddio pawb sy'n gweithio mewn cwmni cyfreithiol, felly gallwn ymchwilio i bryderon am bobl nad ydynt yn gyfreithwyr, a byddwn yn gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, paragyfreithwyr ac ysgrifenyddion cyfreithiol a rhai rheolwyr nad ydynt yn gyfreithwyr. Nid ydynt ar y rhôl cyfreithwyr, nid oes ganddynt dystysgrif ymarfer ac nid oes ganddynt gyfrifon mySRA, felly nid oes gennym wybodaeth amrywiaeth ar gyfer yr unigolion hyn.

## Cyfraddau datgelu

Wrth edrych ar y boblogaeth wrth ei gwaith, mae'r boblogaeth hysbys ar gyfer pob un o'r pedair nodwedd amrywiaeth yn amrywio o 76% i 99%. Daw'r data amrywiaeth hwn o gyfrifon mySRA unigol. Nid oes yn rhaid i bobl ddatgan eu nodweddion amrywiaeth. Yn ddiweddar, rydym wedi diweddaru'r cwestiynau amrywiaeth ar mySRA a byddwn yn cysylltu â phawb sydd â chyfrif mySRA i'w hannog i ddiweddaru eu data.

## Rhyw

Mae'r siart ar y dde yn dangos y dadansoddiad o 152,196 o'r boblogaeth wrth ei gwaith lle'r oeddem yn gwybod ei rhyw. Mae'n cynrychioli 97% o'r boblogaeth wrth ei gwaith o 1 Tach 2019.




## Ethnigrwydd

Mae'r siart isod yn dangos y dadansoddiad o 120,183 o'r boblogaeth wrth ei gwaith lle'r oeddem yn gwybod ei hethnigrwydd. Mae'n cynrychioli 76% o'r boblogaeth wrth ei gwaith o 1 Tach 2019.

Rydym yn cydnabod na fydd profiad grwpiau sy'n ffurfio'r gymuned BAME yr un fath, ond, ar gyfer rhannau o'r adroddiad hwn, mae'r niferoedd yn rhai o'r grwpiau sy'n ffurfio cymuned BAME yn rhy fach i'w hadrodd ar wahân. Mae hyn yn golygu y bydd y grwpiau Asiaidd, du, cymysg ac ethnig eraill yn cael eu dangos o dan BAME. Mae'r un peth yn wir am y grwpiau sy'n ffurfio'r grŵp gwyn.



## Oedran

Mae'r siart isod yn dangos y dadansoddiad o 157,169 o'r boblogaeth wrth ei gwaith lle'r oeddem yn gwybod ei hoedran. Mae'n cynrychioli 99% o'r boblogaeth wrth ei gwaith o 1 Tach 2019.

Roedd 353 o unigolion wedi'u cofnodi yn y grŵp oedran 16–24 oed, yr ydym wedi'i grwpio gyda'r grŵp oedran 25–34 oed. Mae hyn yn llai nag 1% o'r boblogaeth wrth ei gwaith.




## Anabledd

Mae'r siart ar y dde yn dangos y 1,673 o gyfreithwyr wrth eu gwaith sydd wedi nodi anabledd (o 157,359). Mae'n cynrychioli 1% o'r boblogaeth wrth ei gwaith Gwyddom nad yw anabledd yn cael ei nodi ddigon aml wrth adrodd ar draws cwmnïau'r gyfraith. Yn ystod ein hymarfer casglu data amrywiaeth cwmnïau yn 2019, dim ond 3% o gyfreithwyr a nododd fod ganddynt anabledd, o'i gymharu â 19% o'r gweithlu yn y DU.[7]




[7] https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-7540/